Ysgol Glan y Môr,
Ffordd Caerdydd,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 5NU

Pennaeth / Headteacher - Mrs Menai Jones B.A.

Mawrth 1af, 2018.

Annwyl Riant/Gwarchodwr

Ysgrifennaf i'ch hysbysu am rai newidiadau sydd am ddigwydd yn yr ysgol yn y misoedd nesaf.

Yn ddiweddar mae yna sylw sylweddol wedi ei roi gennym i drafod gyda'r disgyblion sut y gallwn fel ysgol leihau ein defnydd o blastig i'r dyfodol. O ganlyniad, mae yna amser penodol mewn gwersi amrywiol wedi cael ei roi i drafod materion amgylcheddol. Mae'r disgyblion wedi rhoi cryn sylw i faterion yn ymwneud â lleihau ysbwriel ac yn fwy penodol lleihau ein defnydd o blastig.

Yn ogystal cynhaliwyd sawl trafodaeth gyda'r Llywodraethwyr a phenderfynwyd fod angen gweithredu i leihau effaith Ysgol Glan y Môr ar yr amgylchedd, ac yn sgil hynny, edrych am gyfleoedd i wella'r awyrgylch o amgylch yr ysgol.

Ein bwriad felly yw lleihau'r defnydd o boteli plastig i gychwyn, gyda'r bwriad o beidio eu gwerthu yn llwyr yn y pen draw pan fydd ein darpariaeth ni'n ddigon da – rhaid i ddisgyblion gael mynediad teg at ddŵr trwy gydol y broses.

Rydym yn rhagweld mai fel hyn y byddwn yn gweithredu yn y camau cyntaf:

Prynu offer newydd i'r ffreutur . Drwy gael mwy o fyrddau a chadeiriau yn y Neuadd gallwn sicrhau mwy o le i ddisgyblion eistedd yn y Neuadd ar awr ginio. Bydd hyn yn lleihau'r ysbwriel cyffredinol o amgylch yr ysgol.

Mygiau coffi ar gyfer paned amser egwyl yn hytrach a chwpanau papur

Powlenni ar gyfer pwdin - lleihau defnydd o bowlenni plastig sy'n cael eu taflyd ar ôl un defnydd.

Jygiau a gwydrau plastig i bawb gael diod o ddŵr am ddim ar y byrddau amser cinio

Rydym hefyd am osod ffynhonnau dŵr newydd mewn gwahanol leoliadau o amgylch yr ysgol lle gall y disgyblion gael diod o'r ffynnon heb fod angen cwpan ar unrhyw amser yn ystod y dydd.

Fe welwch felly ein bod yn gweithio tuag at sefyllfa lle na fydd y ffreutur yn gwerthu poteli neu gartonau diod o gwbl; fe fydd dŵr am ddim i bob disgybl, ond byddwn yn parhau i werthu sudd ffrwythau neu ysgytlaeth mewn cwpan.

-Byddwn hefyd yn treialu pecynnu'r brechdanau amser cinio mewn gorchudd gwahanol gan ddefnyddio llai o blastig.

Mae yna felly gynlluniau cadarn a phellgyrhaeddol yn eu lle i geisio lleihau ein defnydd o blastig yn gyffredinol i'r dyfodol.

Hyderaf y byddwch yn gefnogol i'r hyn mae'r ysgol yn ymdrechu i'w wneud. Gobeithio y bydd y mân newidiadau yma yn ein gweithredu dyddiol yn cael effaith mawr yn amgylcheddol dros amser.

Yn gywir,

Menai Jones
Pennaeth

FFÔN / PHONE 01758 701244 FFACS / FAX 01758 701310

E-BOST / E-MAIL pennaeth@glanymor.gwynedd.sch.uk

GWEFAN / WEBSITE www.glanymor.gwynedd.sch.uk

The Basic Skills Agency QUALITY MARK

BUDDSODDWR MEWN POBL INVESTOR IN PEOPLE